

Datblygu a Ganiateir Diwygiadau i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Anogir ymatebwyr i gyflwyno eu hymatebion ar-lein:
<https://www.smartsurvey.co.uk/s/5RJZZK/?lang=615410>.

Fel arall, cwblhewch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon drwy e-bost at
planconsultations-e@llyw.Cymru.

Eich enw: Dyfan Sion

Sefydliad (os yw'n berthnasol): Comisiynydd y Gymraeg

E-bost/rhif ffôn: post@comisiynyddygyymraeg.cymru / 0345 6033 221

Eich cyfeiriad: Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Bydd ein hymateb yn canolbwyntio ar adran 8, sef Cyfarwyddiadau Erthygl 4. Cwestiynau 16 ac 17 y byddwn yn eu hateb gan mai'r rhain sydd yn berthnasol i gylch gwaith y Comisiynydd.

C.1	A ddylid cadw'r diwrnodau ychwanegol a roddwyd gan Ddosbarth A yn Rhan 4A yn barhaol, gan ganiatáu defnyddiau dros dro am hyd at 56 diwrnod (28 diwrnod at ddibenion penodedig) mewn blwyddyn galendr?		
	Dylid <input type="checkbox"/>	Na ddylid <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.2	A oes gennych unrhyw dystiolaeth ynghylch unrhyw fanteision ac effeithiau o ganlyniad i gyflwyno'r diwrnodau ychwanegol ar gyfer defnyddiau dros dro ers mis Ebrill? Os oes, rhowch fanylion.		
	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.3	A oes gennych farn ynghylch a ddylid cyflwyno cyfyngiadau ychwanegol ar ddefnyddio'r hawl datblygu a ganiateir hon i liniaru effeithiau posibl gwneud hyn yn barhaol? Os oes, rhowch fanylion.		
	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>

C.4	Sylwadau: Dim sylw		
	A ddylid estyn nifer y diwrnodau ar gyfer cynnal marchnad yn gyffredinol? Os dylid, beth yw nifer derbynol o ddyddiau ar gyfer cynnal marchnad? Pa amodau ddylai fod yn berthnasol i reoli'r effeithiau ar gynllunio?		
	Dylid <input type="checkbox"/>	Na ddylid <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.5	A ddylid rhoi unrhyw ddiwrnodau ychwanegol dros y 14 diwrnod a ganiateir ar gyfer marchnadoedd a weithredir gan neu ar ran awdurdod lleol?		
	Dylid <input type="checkbox"/>	Na ddylid <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.6	A ydych yn cytuno y dylai'r newidiadau a ganiateir o ran defnydd yng nghanol trefi ddod yn barhaol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.		
	Ydw <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.7	A ydych yn cytuno y dylid gwneud yr hawl datblygu a ganiateir ar gyfer defnyddio ffordd sy'n gyfagos i safle lletygarwch at yr un diben yn barhaol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.		
	Ydw <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.8	Os ateboch chi ydw i C.7, a oes angen unrhyw amodau ychwanegol i liniaru unrhyw effeithiau posibl ar amwynder?		
	Sylwadau: Dim sylw		

C.9	A ydych yn cytuno y dylid gwneud yr hawl datblygu a ganiateir ar gyfer gosod adlenni at ddibenion lletygarwch yn barhaol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau dros anghytuno.		
	Ydw <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.10	A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch Rhan 3A?		
	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau:		

Dim sylw

C.11	A oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch Rhan 12A?		
	Oes <input type="checkbox"/>	Nac oes <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.12	A ydych yn cytuno na ddylai tai amfeddiannaeth elwa ar hawliau datblygu a roddwyd gan Ran 1 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir sy'n caniatáu addasiadau ac estyniadau i dŷ annedd? Os nad ydych, rhwch eich rhesymau dros anghytuno.		
	Ydw <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.13	A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i Ddosbarth F? Os nad ydych, awgrymwch ddulliau, cyfyngiadau neu drothwyon eraill y gellid eu mabwysiadu.		
	Ydw <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.14	A ydych yn cytuno y dylid rhoi rhagor o hyblygrwydd drwy hawliau datblygu a ganiateir i gyflymu'r broses o gyflwyno seilwaith gwefru cerbydau trydan? Os nad ydych, rhwch eich rhesymau dros anghytuno.		
	Ydw <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.15	A ydych yn cytuno ag ailgyflwyno hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer diogelu dofednod ac adar caeth eraill?		
	Ydw <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>	Arall <input type="checkbox"/>
	Sylwadau: Dim sylw		

C.16	A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer diwygio cyfarwyddiadau Erthygl 4?		
	Ydw <input type="checkbox"/>	Nac ydw <input type="checkbox"/>	Arall <input checked="" type="checkbox"/>
	Sylwadau: Rydym yn cytuno â'r cynigion yng nghyd-destun adran 8.9 (iii) yn benodol. Cefnogwn mewn egwyddor yr egwyddor o roi'r pŵer i Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLIau) wneud cyfarwyddyd i ddileu		

hawliau datblygu a ganiateir yn uniongyrchol yn achos Newidiadau Defnydd.

Cefnogwn hyn yng nghyd-destun ymgynghoriad cyfredol arall gan Lywodraeth Cymru, sef *Deddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr* y byddwn yn ymateb iddo yn ogystal. Mae'r ymgynghoriad hwnnw yn cynnwys y cynnig i ddiwygio'r dosbarth defnydd C3 presennol a chreu dosbarthiadau defnydd newydd. Y bwriad fyddai sefydlu'r dosbarthiadau canlynol:

C3 Tŷ Annedd; Prif Gartrefi
C5 Tŷ Annedd; Cartrefi eilaidd
C6 Llety gosod tymor byr

Mae'r Llywodraeth yn cynnig diwygio'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir er mwyn caniatáu newid defnydd rhwng y dosbarthiadau uchod. Mae hefyd yn cynnig bod ACLlau yn defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i reoli lefel yr ail gartrefi a'r llety gwyliau tymor byr mewn ardaloedd lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod datblygiadau o'r math yn cael effeithiau andwyol. Trafodwyd yr effeithiau hyn, yn enwedig yng nghyd-destun y Gymraeg, mewn adroddiad a groesawyd gan y Llywodraeth yn 2021, sef *Ail gartrefi: Datblygu polisiau newydd yng Nghymru* gan Simon Brooks.

Cytunwn mewn egwyddor ag awgrym y Llywodraeth bod defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 yn ffordd briodol wedi'i thargedu o ymateb i fater sy'n benodol i leoliad. O'r herwydd, cytunwn â chynnig yr ymgynghoriad presennol y dylai ACLlau allu gweithredu'n gyflym i wneud cyfarwyddiadau uniongyrchol yn achos Newidiadau Defnydd. Byddai caniatáu i bob ACLI unigol benderfynu ynglŷn â defnyddio'r pŵer arfaethedig hwnnw yn cyd-fynd ag argymhelliad cyntaf adroddiad Simon Brooks, sef "datblygu amrywiadau rhanbarthol a lleol mewn polisi cyhoeddus".

Mae'n bwysig bod ACLlau yn gwybod pryd y dylid defnyddio eu pŵer arfaethedig newydd. Gofynnwn, felly, a yw'r Llywodraeth yn bwriadu cyhoeddi cyngor ar y diwygiadau hyn petaent yn dod i rym? Yn ein hymateb i ymgynghoriad blaenorol y Llywodraeth, *Trethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanddarpar*, gwnaethom drafod y cysyniad o drothwy ar gyfer canran yr ail gartrefi a'r llety gwyliau tymor byr sy'n dderbyniol o safbwynt cynaliadwyedd cymunedol. Credwn y dylai'r Llywodraeth gyflwyno cyngor manwl ar drothwy o'r math, gan gynnwys maint yr ardal lle dylid gosod y trothwy. Dylid hefyd ystyried y perygl y gallai gosod trothwy mewn un ardal benodol annog cynnydd yn nifer yr ail gartrefi a'r llety gwyliau tymor byr mewn ardaloedd cyfagos. Byddai cyngor arbenigol yn cynorthwyo ACLlau i benderfynu pryd y dylid defnyddio Cyfarwyddiadau Erthygl 4 i reoli niferoedd ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr.

Er mwyn gwella ein dealltwriaeth o'r maes cymhleth hwn ac effaith unrhyw ymyraethau ar sefyllfa'r Gymraeg, os daw'r diwygiadau i rym, byddai'n fuddiol gwybod pa ACLlau fydd yn defnyddio'r pŵer arfaethedig newydd, ac i ba raddau. Ydy'r Llywodraeth yn bwriadu casglu data ar hyn a'i gyhoeddi maes o law er mwyn cynorthwyo gyda monitro'r sefyllfa?

C.17 Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol o ran cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Yn eich barn chi, beth fyddai'r effaith? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau:

Nodwch ein hateb i Gwestiwn 16 uchod, os gwelwch yn dda. Mewn ardaloedd lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr yn cael effeithiau andwyol ar y Gymraeg, petai Cyfarwyddiadau Erthygl 4 gan ACLlau yn golygu bod llai o dai yn newid defnydd o fod yn brif gartrefi, a phetai mwy o bobl leol yn gallu rhentu neu brynu'r tai hynny, mae'n bosibl y gallasai cynigion y Llywodraeth gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg trwy warchod cynaliadwyedd cymunedau lle siaredir yr iaith. Byddwn yn ymateb yn llawnach i gynigion y Llywodraeth o safbwynt newidiadau defnydd yn ein hymateb i'r ymgynghoriad ar Ddeddfwriaeth a pholisi cynllunio ar gyfer ail gartrefi a llety gwyliau tymor byr a dylid darllen ein sylwadau i'r ymgynghoriad hwn yng nghyd-destun ein hymateb i'r ymgynghoriad hwnnw.

C.18 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau ymgynghori penodol. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi.

Sylwadau:

/

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch: